

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 63/2017

DYDDIAD CYHOEDDI: 26/10/2017

Gwerthusiad o brosiect y Gronfa Seilwaith Safleoedd Cyflogaeth Strategol

Crynodeb

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Yn Ebrill 2015 comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Regeneris Consulting i gyflawni gwerthusiad o brosiect y Gronfa Seilwaith Safleoedd Cyflogaeth Strategol (SESIF). Cefnogwyd tîm Regeneris gan Old Bell 3, Robert Chapman ac Acer Ecology.
- 1.2 Prosiect buddsoddiad cyfalaf gwerth £7.2m oedd SESIF a gefnogwyd gan £2.6m o gyllid o Raglen Gydgyfeirio ERDF Cymru 2007-13 ynghyd â £3.5m o gyllid gan Lywodraeth Cymru a £1.1m o arian cyfatebol gan y sector preifat. Sefydlodd y prosiect gronfa seilwaith i hwyluso'r broses o ddatblygu safleoedd cyflogaeth strategol yn yr Ardal Gydgyfeirio ERDF (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) drwy fuddsoddi mewn gwaith uwch-seilwaith.
- 1.3 Y rhesymau dros ddiffyg buddsoddiad ERDF yn y farchnad oedd nad oedd digon o safleoedd cyflogaeth yn cael eu cynnig i'w datblygu gan y sector preifat yn yr Ardal Gydgyfeirio, o ystyried y costau uchel ymlaen llaw gyda pharatoi, gwasanaethu a seilwaith y safleoedd. Mae'r gost o ddatblygu eiddo masnachol mewn rhannau o'r Ardal Gydgyfeirio yn aml yn llawer mwy na gwerth y datblygiad gorffenedig.
- 1.4 Gwelodd Llywodraeth Cymru gyfle i ddefnyddio adnoddau ERDF, ynghyd ag arian cyfatebol, i chwarae rôl allweddol mewn cefnogi'r broses o ddarparu'r seilwaith ffisegol sydd ei angen ar gyfer safleoedd cyflogaeth strategol. Drwy wneud y gwaith hwn a gwneud i ffwrdd â chyfyngiadau safle a allai atal datblygu safleoedd, gallai Llywodraeth Cymru gyfrannu at sicrhau bod gan yr Ardal Gydgyfeirio gyflenwad digonol o safleoedd cyflogaeth strategol o ansawdd uchel i gwrdd ag anghenion busnesau lleol a mewnfuddsoddwyr. Byddai'r gronfa felly'n chwarae rôl allweddol mewn helpu i wella rhagolygon economaidd a chystadleurwydd economi'r Ardal Gydgyfeirio, yn ogystal ag economi ehangach Cymru.
- 1.5 O ystyried faint o adnoddau oedd ar gael, canolbwyntiodd fuddsoddiad y prosiect SESIF ar dri safle yn yr Ardal Gydgyfeirio. Y rhain oedd:
 - Rhyd y Blew yng Nglyn Ebwy (Ardal Cynllun Gofodol De Ddwyrain Cymru)
 - Ffordd Amazon Cyfnod 2 yn Rhanbarth Dinas Abertawe / Castell Nedd Port Talbot (Ardal Cynllun Gofodol Bae Abertawe)

- Parc Bryn Cegin ym Mangor (Ardal Cynllun Gofodol Gogledd Orllewin a Gogledd Ddwyrain Cymru).
- 1.6 Cafodd y prosiect SESIF ei gwblhau'n ffurfiol ar ddiwedd Mehefin 2015 yn unol â chanllawiau'r Rhaglen ERDF. O ystyried maint y buddsoddiad gan ERDF, mae'n orfodol ofynnol i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) gomisiynu gwerthusiad annibynnol i asesu canlyniadau prosiectau a'r dulliau a ddefnyddiwyd i'w cyflawni.
- 1.7 Dyma oedd nodau ac amcanion y gwerthusiad terfynol o'r prosiect:
- Cyflawni gwerthusiad cynhwysfawr o ganlyniadau'r prosiect yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol a ddisgrifiwyd yng nghynllun busnes y prosiect.
 - Asesu pa mor effeithiol ac effeithlon y cafodd y prosiect ei ddarparu i gyflawni nodau ac amcanion y prosiect yn unol â'r cynllun busnes.
 - Deall y gwerth ychwanegol a greodd y prosiect i'w fuddiolwyr posib o ran y pecynnau cymorth a gynigiwyd.
 - Adnabod a phenderfynu beth oedd natur unrhyw ganlyniadau anfwriadol na chawsant eu cynnwys o dan ddangosyddion perfformiad allweddol WEFO.
 - Asesu llwyddiant y prosiect gyda darparu a chyflawni yn erbyn nodau ac amcanion y themâu trawsbynciol a'r dangosyddion CCT a amlinellwyd yn eu cynllun busnes.
- 1.8 Mae'r gwerthusiad hefyd yn gofyn amryw o gwestiynau ychwanegol:
- I ba raddau y llwyddodd y cymorth i helpu datblygwyr yn wirioneddol i ddarparu tir ac eiddo i gwrdd yn well â gofynion eiddo'r economi leol, gan gynnwys anghenion busnesau bach a chanolig brodorol, mewnfuddsoddwyr a sectorau newydd?
 - I ba raddau ac ym mha ffordd y llwyddodd y buddsoddiad i helpu (neu y mae ganddo'r potensial) i wella'r ardal fel lleoliad buddsoddi?
 - I ba raddau y gellid bod wedi darparu'r ymyriadau'n fwy effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys drwy ddefnyddio dulliau cyllido gwahanol neu fathau gwahanol o ymyriadau?
 - Beth yw'r rhagolygon gorau o effaith economaidd gydol oes y prosiect?
 - Pa wersi y gellir eu dysgu ar gyfer y rhaglen nesaf a phrosiectau tebyg wedi eu cyllido mewn ffyrdd eraill?
- 1.9 Mae'r gwerthusiad o SESIF yn adroddiad cynhwysfawr a manwl sy'n seiliedig ar fethodoleg mewn dwy ran. Roedd y rhan gyntaf yn canolbwyntio ar nifer o dasgau ymchwil dechreuol a chychwynnol pwysig er mwyn deall y prosiect SESIF a'r tri safle buddsoddi unigol (neu is-brosiectau) yn well. Roedd y dull yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid, adolygu polisïau lleol a chenedlaethol a'r cyd-destun economaidd, ac adolygu data monitro prosiectau Llywodraeth Cymru. Roedd ail ran y gwaith yn cynnwys gwaith maes ym mhob un o'r tri safle ynghyd ag ymweliadau safle ac ymgynghori. I ddilyn cynhaliwyd ymgynghori strategol helaeth i lunio barn resymegol am unrhyw effeithiau y gallai buddsoddi yn y safleoedd eu cael ar yr economi.
- 1.10 O ystyried cwmpas a maint y gwerthusiad a'i ganfyddiadau, yn enwedig ar gyfer y tri gwerthusiad safle unigol, ni cheisiodd y gwerthuswyr grynhoi holl gasgliadau'r gwerthusiad. Fodd bynnag, mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg ar brif gasgliadau'r gwerthusiad yn ogystal â'r argymhellion i Lywodraeth Cymru.

2. Canfyddiadau

- 2.1 Mae'r prosiect SESIF erbyn hyn fwy neu lai wedi'i gwblhau, er bod peth o'r gwaith ffisegol yn Rhyd y Blew a Pharc Bryn Cegin eto i'w gwblhau. Ar hyn o bryd mae'r prosiect yng ngham hawliad terfynol a chau'r prosiect o ganlyniad i'r terfyn amser ar gyfer cwblhau'r prosiect o ddiwedd Mehefin 2015.
- 2.2 Cyfanswm gwariant y prosiect SESIF oedd £6.23m (86 y cant o'r holl wariant prosiect a ailwampwyd), gyda chyfanswm gwariant ERDF o £2.21m (85 y cant o'r holl wariant ERDF cymwys a ailwampwyd). Er bod ychydig o danwariant y prosiect wedi digwydd o ganlyniad i arbedion a wnaed ar rai o'r safleoedd, neu gyda ffioedd proffesiynol cysylltiedig, mae'r rhan fwyaf o danwariant y prosiect i'w briodoli i safle Rhyd y Blew a'r goblygiadau o beidio â chwblhau'r garthffos dŵr aflan yn y cyfnod cymwys ar gyfer prosiectau ERDF (92 y cant o gyfanswm tanwariant y prosiect neu £0.97m, neu 89 y cant o'r holl danwariant ERDF).
- 2.3 Un o'r prif oblygiadau i'w nodi o golli cymorth grant ERDF yn achos safle Rhyd y Blew oedd ei bod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ofyn am gymeradwyaeth y Gweinidog i dalu am gwblhau'r gwaith a gorffen y prosiect. Mae hynny bellach wedi'i gymeradwyo ac mae cost cyfle gudd i gyllideb tir ac eiddo Llywodraeth Cymru o fod yn ofynnol i ariannu'r gwaith hwn ac o fod heb wneud y mwyaf o'r manteision yn deillio o'r grant ERDF. Deallwn hefyd nad oedd yn bosib i gyfran fach o'r cyllid yn gysylltiedig â gwaith a ddigwyddodd ar ôl cwblhau'r prosiect ym Mharc Bryn Cegin gael ei chynnwys fel rhan o'r gwariant o dan ERDF. Er hynny, disgwylir y bydd y prosiect yn Rhyd y Blew wedi ei gwblhau, o ystyried yr ateb a gafwyd erbyn hyn i broblem y garthffos dŵr aflan, ac y bydd capasiti trydan ychwanegol ym Mharc Bryn Cegin yn cael ei osod yn fuan (h.y. gan nodi cwblhad ffisegol y prosiect).
- 2.4 Roedd y prosiect SESIF dan gcontract i ddarparu un prif fesur allbwn - 26.94 hectar o 'Dir Wedi'i Ddatblygu'. Roedd y targed hwn yn seiliedig ar ddau allan o'r tri safle:
- Rhyd y Blew: 12.94 hectar
 - Ffordd Amazon Cyfnod 2: 14 hectar wedi'i rannu rhwng 12 hectar yng Nghoed Darcy, ym mherchnogaeth St Modwen, a 2 hectar o dir gan Lywodraeth Cymru oddi ar Ffordd Amazon.
 - Ni chafodd y tir yn gysylltiedig â safle Parc Bryn Cegin ym Mangor ei gynnwys yn y targed cyffredinol oherwydd hawliwyd am hwn fel rhan o fuddsoddiad Rhaglen ERDF 2000-06.
- 2.5 Casglwn felly mai dim ond 2 hectar (7%) o 'Dir Wedi'i Ddatblygu' y gellir ei hawlio gan y prosiect SESIF, ac felly gan y Rhaglen ERDF. Mae'r farn uchod yn seiliedig ar y rhesymau canlynol:
- Rhyd y Blew: Ni chafodd y gwaith seilwaith ei gwblhau cyn y terfyn amser ym mis Mehefin, ac roedd angen gwaith sylweddol i gwblhau'r garthffos dŵr aflan. O ganlyniad, nid yw Llywodraeth Cymru'n hawlio unrhyw allbwn ar gyfer y safle hwn a barnwn mai dyna'r peth iawn i'w wneud.
 - Ffordd Amazon Cyfnod 2: Bernir na ddylai'r tir cyflogaeth yng Nghoed Darcy (12 hectar) fod wedi cael ei gynnwys fel tir yn cyfrannu at allbwn y prosiect oherwydd nid yw ei ddatblygiad yn dibynnu ar ddatblygu Ffordd Amazon Cyfnod 2. Mae'r tir yn gorwedd rai cilometrau i'r gogledd o'r ffordd yma yn y ffordd (a byddai angen cwblhau'r 'Ffordd Fynediad Ddeheuol'), ac ar hyn o bryd gellir mynd ato'n hawdd o gyffordd 43 yr M4 neu ar hyd ffordd lleol.
- 2.6 Fodd bynnag bernir hefyd fod cyfleoedd, yn enwedig gyda phrosiect Ffordd Amazon Cyfnod 2, lle gallai swyddogion Llywodraeth Cymru fod wedi ystyried safleoedd ac allbynnau eraill neu ychwanegol fel rhan o'r prosiect SESIF. Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd yn union gerllaw'r ffordd yn Ffordd Amazon, yn ogystal ag allbynnau'n gysylltiedig â'i chreu (e.e.

cilometrau o ffordd fynediad a grëwyd neu a ail-grewyd, neu gilometrau o lwybrau troed neu lwybrau beics a grëwyd neu a ail-grewyd).

- 2.7 Er bod y gwerthusiad yn casglu bod y prif berfformiad o ran allbynnau'n siomedig o safbwynt y prosiect SESIF yn gyffredinol, deallwn na fydd y Rhaglen ERDF yn tanberfformio yn erbyn ei tharged allbynnau gydol oes cyffredinol o ganlyniad i'r ffaith na wnaeth y prosiect SESIF gyfrannu'r allbwn cyfan o 26.94 hectar o dir wedi'i ddatblygu. Er hynny mae'r gwerthusiad wedi dangos rhai diffygion gyda phrosesau datblygu ac arfarnu'r prosiect a ddylai fod wedi amlygu'r problemau hyn yn llawer cynt.
- 2.8 Oherwydd nad oes gan safleoedd y prosiect SESIF neb yn eu meddiannu, nid yw'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Busnes y prosiect SESIF wedi digwydd eto. Fodd bynnag, o ystyried natur y buddsoddiadau, y disgwyliadau o hyd oedd y byddai'r rhan fwyaf o'r canlyniadau'n digwydd ar ôl i'r Rhaglen ddod i ben. O ystyried y farn am y buddsoddiad yn Ffordd Amazon Cyfnod 2 a safle Coed Darcy, ni fydd y prosiect SESIF yn gallu hawlio unrhyw un o'r canlyniadau'n gysylltiedig â'r safle hwn a nodwyd yng Nghynllun Busnes y prosiect. Fodd bynnag, gallai fod lle i adolygu a fydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n gallu hawlio canlyniadau'n gysylltiedig ag ymestyn y prosiect i gynnwys darparu mynediad newydd i safle Elba Works.
- 2.9 Er hynny, casglwn fod y prosiect SESIF mewn sefyllfa gymharol gryf o ran cyflawni rhai o'r canlyniadau economaidd a'r effeithiau cysylltiedig mewn blynyddoedd i ddod (yn y tymor byr, canolig a hir), ac y gellir ystyried iddo fod yn llwyddiant amodol yn achos rhai safleoedd o ystyried yr ystod o fanteision cadarnhaol anuniongyrchol ac ehangach sydd eisoes wedi eu creu neu a allai gael eu creu yn y dyfodol. Mae'r negeseuon allweddol wrth wraidd y casgliad hwn fel a ganlyn:

Rhyd y Blew:

- Er na wnaeth y prosiect gwblhau ar amser, cafodd gyfran helaeth o'r gwaith gofynnol ei wneud yn ôl y bwriad, gan gynnwys y mesurau lliniaru ecolegol. Bydd ymrwymo mwy o adnoddau gan Lywodraeth Cymru'n sicrhau bod y gwaith i gyd yn cael ei gwblhau yn y dyfodol agos. Mae safle Rhyd y Blew yn awr mewn sefyllfa dda iawn i ddenu meddianwyr ar gyfer y dyfodol. Byddem yn casglu felly bod y prosiect a'r buddsoddiad gan ERDF wedi chwarae rôl eithriadol bwysig mewn creu diddordeb ac efallai denu rhywun (mewnfuddsoddwr mawr) i feddiannu'r safle yn y dyfodol.
- O ystyried y buddsoddiad, barnwn felly fod gobaith da o ddenu mewnfuddsoddiad sylweddol i'r safle. Pe bai'r cwmni sydd ar hyn o bryd yn trafod â Llywodraeth Cymru'n lleoli eu gwaith gweithgynhyrchu ar y safle hwn, gellid cefnogi tua 400 o swyddi yn y ddwy flynedd nesaf gan godi i gefnogi 500-550 o swyddi pe bai'r gwaith yn tyfu yn y tymor byr i ganolig (3-5 mlynedd).
- Byddai'r effaith gyflogaeth ychwanegol net bosib yn 320-440 o swyddi uniongyrchol, gan godi i 900-1,360 ar ôl cynnwys swyddi anuniongyrchol a swyddi a grëir o ganlyniad. Byddai hyn yn ganlyniad cadarnhaol i'r prosiect SESIF ac i'r defnydd o adnoddau Llywodraeth Cymru ac ERDF o ran cyfrannu at sicrhau buddsoddiad uniongyrchol sylweddol o dramor i Lyn Ebwy, yn ogystal ag efallai ysgogi a gwreiddio gweithgareddau cadwyn gyflenwi yn yr economi.

Parc Bryn Cegin:

- Mae'r safle hwn wedi aros yn wag ers yr wyth mlynedd ar ôl cwblhau'r rhan fwyaf o'r gofynion gwaith seilwaith a wnaed fel rhan o'r Rhaglen ERDF flaenorol. Gydag adferiad cryf o ddirwasgiad wedi bod yn anodd yng Ngogledd Orllewin Cymru,

cyflenwad sylweddol o dir a safleoedd eraill ar gael a galw cymedrol, mae'r cyfleoedd i ddatblygu'r safle hwn wedi bod yn brin ac yn debygol iawn o barhau i fod felly. Er ei fod yn anodd rhagweld, rydym yn disgwyl mai yn y tymor hir y bydd y safle hwn yn cael ei ddatblygu.

- Er hynny, o ganlyniad i'r prosiect buddsoddi, mae'r sgôp i ddatblygu'r safle hwn wedi'i sefydlu gan ddarparu cynllun meistr hyblyg i gwrdd â chymysgedd o ofynion. O ganlyniad i'r buddsoddiad mae gan Fangor bellach safle cyflogaeth sy'n barod i groesawu datblygwyr mawr yn ei phortffolio safleoedd. Pe bai'r cynllun meistr yn datblygu yn y tymor hir, gallai gefnogi tua 1,585 o swyddi gros cyfwerth ag amser llawn (FTE), neu tua 975 o swyddi FTE ychwanegol net.

Ffordd Amazon Cyfnod 2:

- Ni ddarparodd y prosiect y lefel ddisgwyliedig o allbwn 'tir wedi'i ddatblygu' ar gyfer y prosiect SESIF yn gyffredinol, ac ni fydd ychwaith yn cyfrannu at y canlyniadau sylweddol yn y dyfodol a nodir yn y Cynllun Busnes. Er y gellir hawlio'r ddau hectar o safle gan Lywodraeth Cymru fel allbwn, yn ein barn ni, ni ddylai'r 12 hectar o dir cyflogaeth yng Nghoed Darcy (a'i ganlyniadau cysylltiedig yn y dyfodol) fod wedi cael ei gynnwys yn y prosiect. Ni chytunwn fod datblygiad y 12 hectar o dir yng Nghoed Darcy'n dibynnu ar ddatblygu Ffordd Amazon Cyfnod 2.
- Fodd bynnag, er nad yw'r buddsoddiad safle hwn o ran ei ganlyniadau na'i brif allbwn wedi cwrdd â'r disgwyliadau gwreiddiol, barnwn i'r prosiect fod yn llwyddiant amodol drwy gefnogi nifer o fanteision ehangach cadarnhaol yn awr ac efallai yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn seiliedig ar:
 - Mae datblygu'r darn ffordd 1.5km yn Ffordd Amazon Cyfnod 2 yn gam nesaf pwysig i ddarparu amcanion adfywio a datblygu economaidd Llywodraeth Cymru a rhai ei phartneriaid ar gyfer ardal Coridor Ffordd Fabian / Jersey Marine.
 - Mae'r prosiect yn cael ei gyflawni o dan ei gyllideb ac o flaen amser, gan wneud cyfraniad pwysig i agor safleoedd datblygu newydd a rhai eraill gerllaw a oedd o'r blaen yn dirgaeedig neu gyda chyfyngiadau mynediad.
 - Mae'r prosiect yn cael ei ehangu ar ôl cydnabod y byddai gwariant pellach i ddarparu mynediad ychwanegol i Elba Works yn cefnogi amcanion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio ac annog twf cynaliadwy'r Sector Creadigol yng Nghymru, drwy ddatblygu safle Bay Studios.
 - Mae cyflawni'r prosiect hefyd wedi cefnogi'r amcanion ehangach o ysgafnu tagfeydd a phroblemau mynediad o Fabian Way, yn gysylltiedig â'r busnesau sydd eisoes yn gweithredu yn yr ardal hon, a hefyd drwy ddarparu trefniadau mynediad newydd i gefnogi unrhyw ddatblygiadau newydd yn y dyfodol. Heb y ffordd fynediad newydd mae'n annhebygol y byddai cynlluniau datblygu newydd yn y dyfodol yn cael eu cymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio.

2.10 Gan droi at faterion proses a rheoli ar gyfer y prosiect SESIF, casglwn fod y systemau rheoli, monitro a chydymffurfio ar y cyfan wedi bod yn dda. Mae'r gwerthusiad wedi nodi bod systemau rheoli prosiect da yn eu lle, o ran rheolaeth ariannol, monitro allbynnau a monitro ariannol, ac adrodd ar gynnydd i WEFO.

2.11 Er bod oedi wedi bod gyda gweithredu'r prosiect sydd, yn ei dro, wedi arwain at fethu â chwblhau'r gwaith ffisegol o fewn yr amserlen ofynnol, mae hyn i raddau'n adlewyrchu cymhlethdod y prosiect a'r problemau safle-benodol a gododd. Er hynny, byddai'r prosiect wedi elwa o reolaeth strategol a rhagweithiol fwy llym ynghyd â threfniadau rheoli risg mwy

rhagweithiol o gofio'r amserlen eithaf heriol gan ERDF (o ystyried yr oedi cyn cymeradwyo). Er hynny, daeth tîm rheoli'r prosiect, gyda chymorth gan WEFO, o hyd i atebion i sicrhau y bydd y prosiectau i gyd yn cael eu cwblhau'n llawn yn y dyfodol agos.

- 2.12 Bu'n rhaid i'r prosiect SESIF ymdopi ag amserlen weithredu heriol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd oedi gyda datblygu, arfarnu a chymeradwyo'r prosiect. Roedd rhai o'r pethau hyn o ganlyniad i amgylchiadau a gododd a oedd y tu hwnt i reolaeth tîm datblygu a chyllidwyr y prosiect. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hefyd wedi tynnu sylw at nifer o faterion y gellid bod wedi eu hadnabod yn y cam arfarnu a chymeradwyo. Mae hyn yn cynnwys pa mor briodol oedd safle Coed Darcy ar gyfer prosiect ac allbynnau Ffordd Amazon Cyfnod 2 a hefyd bod angen rhoi strategaethau rheoli risg priodol yn eu lle.

3. Argymhellion

- 3.1 Ar sail tystiolaeth a chasgliadau'r gwerthusiad, mae'r canlynol yn rhoi deg o argymhellion gweithredu i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r broses o ddylunio a chymeradwyo prosiect, yn ogystal â cham cyflawni unrhyw brosiectau SESIF yn y dyfodol.

Dylunio a Chymeradwyo Prosiect

- (1) **Gweithgarwch datblygu prosiect a llinellau amser byrrach gyda mwy o ffocws:** Dangosodd y dystiolaeth o'r buddsoddiadau SESIF fod cyflawni rhai gofynion seilwaith safle pur anodd wedi'i gyfyngu'n ddifrifol gan gyfnodau cynllunio busnes a datblygu prosiect hirfaith iawn. Ar gyfer prosiectau SESIF yn y dyfodol, argymhellir cadw at gyfnod o 12 mis ar gyfer gweithgareddau cysyniad / datblygu prosiect a chyfnod o 6-12 mis i ddatblygu cynigion safle unigol ymhellach. Byddai hyn yn rhoi mwy o ffocws i bethau, yn rhoi momentwm i'r broses, yn sicrhau bod yr ymgysylltu angenrheidiol â rhanddeiliaid yn digwydd a hefyd yn caniatáu digon o amser ar gyfer unrhyw hapddigwyddiadau.
- (2) **Cyfleu'n gryfach y dystiolaeth / cyfiawnhad marchnad dros ymyriadau safle:** Roedd Cynllun Busnes y prosiect SESIF yn dibynnu ar adroddiad a dadansoddiad (2007) DTZ o'r farchnad eiddo yn yr ardaloedd cynllun gofodol ehangach i gyfiawnhau'r penderfyniadau buddsoddi o dan SESIF. Er bod y Cynllun Busnes yn cyfeirio at y dystiolaeth, nid oedd yn cyfleu'r dystiolaeth farchnad yn ddigonol i ategu'r penderfyniadau a wnaed yn y pen draw i fuddsoddi a symud ymlaen gyda safleoedd penodol. Byddai gwaith datblygu prosiectau SESIF yn y dyfodol (a'u gwerthusiad wedyn) yn elwa o ddadansoddiad mwy amserol (h.y. roedd yr amodau marchnad ac economaidd wedi newid yn sylweddol ers 2007), ac yn bwysicach, o ddadansoddiad mwy lleol / isranbarthol o'r farchnad eiddo i gyfiawnhau penderfyniadau buddsoddi. Yn ogystal â chomisiynu adroddiadau marchnad eiddo gan gwmnïau ymgynghorol, byddai integreiddio a gwneud mwy o ddefnydd o ddata marchnad eiddo Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cryfhau'r dystiolaeth a'r ddadl dros fuddsoddi mewn safleoedd unigol.
- (3) **Cofnodi a storio dogfennau prosiect yn well:** Ceisiodd y gwerthuswyr adolygu nifer o ddogfennau pwysig er mwyn deall yn well:
 - llinell amser gweithgarwch dylunio / datblygu'r prosiect (e.e. cofnodion cyfarfodydd i ategu'r penderfyniadau y tu ôl i'r broses dewis safleoedd)
 - yr arfarniadau datblygu safle cychwynnol (oedd yn ystyried hyfywedd)
 - arfarniadau prosiect a wnaed i asesu gwerth am arian ac allbynnau'r prosiect a'r canlyniadau ar gyfer y Rhaglen ERDF (e.e. tybiaethau i ategu'r targedau).

O ganlyniad i newidiadau staff ac ad-drefnu adrannol mewnol, nid oedd y dogfennau hyn ar gael i ni ac ni ellid dod o hyd iddynt. Er enghraifft, byddai wedi bod yn hynod ddefnyddiol gweld yr arfarniadau o ganlyniadau ac allbynnau posib y prosiect Ffordd Amazon Cyfnod 2, o gofio beth oedd canlyniad y prosiect hwn, er mwyn deall pa mor briodol oedd y cynigion. Ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, dylai swyddogion Llywodraeth Cymru ddatblygu prosesau sy'n cofnodi a storio dogfennau o'r fath yn well, ar ddechrau'r prosiect, er mwyn gallu adolygu a gwerthuso'n effeithiol. Os yw dyluniad buddsoddiadau SESIF newydd eisoes ar y gweill, mae'n gofyn bod angen dechrau cymhwyso'r egwyddorion hyn yn syth. Mae hyn yn bwysig o ystyried yr eglurder sydd ei angen i ddeall amserlen wreiddiol prosiect, sut yr ystyrid y gallai'r buddsoddiad alluogi datblygiad mewn gwirionedd, a faint o fanteision economaidd y gellid disgwyl eu gweld.

- (4) **Arfarnu mewnol mwy trylwyr o ganlyniadau ac allbynnau targed:** Gwyddom am y systemau sydd yn eu lle yn Llywodraeth Cymru ar gyfer arfarnu cynigion prosiect a'u hachosion busnes cysylltiedig. Fodd bynnag, awgryma'r dystiolaeth o'r gwerthusiad fod cwestiwn ynghylch pa mor ddilys oedd rhai o'r canlyniadau a'r allbynnau a hawliwyd yn yr achos hwn. Gellid osgoi hyn gyda phrosiectau yn y dyfodol drwy gryfhau'r canllawiau a'r cyfathrebu ynghylch y diffiniad o allbynnau a chanlyniadau fel bod llai o sgôp i gamddehongli pethau. Gellid hefyd gweithredu proses adolygu gan gymheiriaid yn defnyddio swyddogion na fyddai ganddynt rôl uniongyrchol yn y prosiect. Gallai'r swyddogion hyn nodi unrhyw faterion neu risgiau perthnasol a allai fod wedi cael eu hesgeuluso yn y cam dylunio, a thynnu sylw at unrhyw gyfle a gollwyd i ddewis targedau ac allbynnau penodol ar gyfer y prosiect (e.e. roedd yr arfarniad wedi nodi dau allbwn y gellid bod wedi eu dewis ar gyfer prosiect Ffordd Amazon Cyfnod 2, tra byddai safleoedd ychwanegol / eraill hefyd yn elwa o'r buddsoddiad).

Cyflawni'r Prosiect

- (5) **Datblygu cynllun gweithredu SESIF manwl a throsfwaol:** Roedd pob un o'r tri phrosiect buddsoddi SESIF wedi eu rheoli gan reolwr technegol unigol yn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, o ystyried lefel a chymhlethdod y buddsoddiadau safle, byddai'r prosiect SESIF nesaf yn elwa o ddatblygu Cynllun Gweithredu Prosiect manwl a throsfwaol. Byddai'r cynllun hwn yn nodi, ar gyfer pob safle buddsoddi, beth oedd y prif weithgareddau y gellid eu cyflawni, y cerrig milltir, amserlenni a risgiau. Dylid ei ddefnyddio fel offeryn rheoli prosiect 'byw' i helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i fonitro cynnydd a rheoli risg (e.e. oedi gyda darparu cyfleustodau) yng nghyd-destun y Rhaglen ERDF gyfan, ac ar gyfer safleoedd buddsoddi unigol.
- (6) **Ymgysylltu rheolaidd a chynhwysfawr rhwng Llywodraeth Cymru a chwmnïau cyfleustodau:** Er bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â darparwyr cyfleustodau ynghylch eu gofynion yn codi o'r buddsoddiad SESIF, byddai prosiectau SESIF yn y dyfodol yn elwa o gynnwys darparwyr cyfleustodau ar y cyfle cyntaf posib yn y broses. Gallai hyn fod ar ffurf rôl ymgynghorol hyd yn oed yng nghanol dylunio'r prosiect lle bo angen, yn ogystal ag yn y broses ymgysylltu ac ymgynghori uniongyrchol yn ystod y camau cynllunio technegol a datblygu opsiynau. Byddai hyn yn cyd-fynd yn effeithiol â dull Cynllun Gweithredu, ac yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall yn well unrhyw gyfyngiadau capasiti o fewn y rhwydweithiau cyfleustodau ehangach. Byddai hefyd yn cyfrannu at leihau'r amseroedd 'cyflwyno' ar gyfer gofynion cyfleustodau.

- (7) **Rheolwr rhaglen yn gyfrifol am reolaeth ariannol a rheoli perfformiad:** Byddai prosiectau o'r natur yma'n elwa o integreiddio rôl rheolaeth ariannol prosiect a'r rôl rheoli perfformiad ar gyfer pob un o'r safleoedd buddsoddi unigol. Dangosodd y gwerthusiad ba mor bwysig yw terfynau amser ar gyfer cwblhau prosiectau ERDF a'r gofyniad i lynu wrth reoliadau i sicrhau bod buddsoddiadau ERDF yn darparu cynifer o'r manteision a oedd mewn golwg â phosib. O ganlyniad, gallai rheolwr prosiect a fyddai'n cyfuno'r sgiliau hyn, ynghyd â throsolwg clir ar gynnydd a pherfformiad pob safle buddsoddi, sicrhau bod unigolyn yn gyfrifol am bob agwedd ar brosiect ac yn gallu ei wthio yn ei flaen a rhoi sylw i unrhyw broblem, gyda'r rheolwyr technegol, wrth iddynt godi.
- (8) **Annog y sector preifat i ymgysylltu mwy â'r prosiect:** Dylai Llywodraeth Cymru annog datblygwyr a thirfeddianwyr sector preifat naill ai i fidio am brosiect SESIF yn y dyfodol i ennill cefnogaeth uniongyrchol i gynlluniau sydd ganddynt mewn golwg, neu gydweithredu ar brosiectau lle gallai seilwaith newydd helpu i agor / gwella safleoedd. Pe bai hyn yn cael ei wneud, gallai fod cyfiawnhad da i Lywodraeth Cymru ystyried cyflwyno grant a benthyciad cyfun ar gyfer SESIF. Gallai'r grant barhau i gael ei ddefnyddio i helpu gyda chostau uchel gwaith seilwaith safle, a gellid defnyddio'r benthyciad i gynorthwyo gyda datblygu llety. O'i ddefnyddio'n llwyddiannus, gallai'r dull hwn arlwygo ffordd gliriach i'r farchnad ar gyfer y safle a rhoi mwy o sicrwydd y gellid gweld canlyniadau a manteision economaidd o fewn amser rhesymol.
- (9) **Sicrhau bod swyddogion yn cael eu diweddarau ac yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i ddarparu buddsoddiadau rhaglen ERDF:** Mae prosesau eisoes yn eu lle i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cadw at y rheolau'n ymwneud â gweinyddu a darparu prosiectau a ariennir gan ERDF. Fodd bynnag, tynnodd y gwerthusiad sylw at fwch posib mewn gwybodaeth sydd angen ei lenwi yn ymwneud â dealltwriaeth / dehongliad rheolwyr technegol o ganllawiau, rheoliadau a gweithdrefnau cydymffurfio ERDF. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei swyddogion i gyd yn derbyn y lefel briodol o hyfforddiant, cyfarwyddyd a chymorth parhaus i ddarparu a gweinyddu eu prosiectau'n effeithiol drwy gydol y cam cyflawni. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd newid staff yn digwydd a swyddogion yn gorfod ymdopi â materion a phrosiectau o fewn amserlen dynn.
- (10) **Ei gwneud yn ofynnol i swyddogion wneud pwynt o gofnodi manteision ehangach prosiectau a monitro cyfraniadau at Themâu Trawsbynciol y Rhaglen ERDF:** Roedd swyddogion yn gallu cyfleu i'r gwerthuswyr sut yr oedd eu prosiectau hefyd wedi darparu cyfres o fanteision ehangach (cymysgedd o fanteision disgwylidig ac annisgwyl). Dylai fod yn ofynnol i swyddogion gofnodi'r rhain yn gyfnodol. Mae hon yn broses bwysig pe bai unrhyw newidiadau staff yn digwydd gan helpu i gadw gwybodaeth am, a dealltwriaeth o, brosiect. Mae cyfraniadau at Themâu Trawsbynciol y Rhaglen ERDF hefyd yn amrywio ar draws buddsoddiadau SESIF. Fodd bynnag, dylai gwaith cyfnodol swyddogion yn cofnodi cyfraniadau at y themâu hyn gael ei wreiddio'n well drwy gydol y cam cyflawni. Byddai hyn yn sicrhau y gellid tracio cynnydd y themâu a chofnodi cyfraniadau'n gywir. Byddai'r mesurau hyn yn helpu i hyrwyddo'r cynlluniau a hefyd yn cyfrannu at dystiolaeth werthuso yn y dyfodol.

Awduron yr Adroddiad: Regeneris Consulting

Yr Adroddiad Ymchwil Llawn: Regeneris Consulting (2017) *Gwerthusiad o brosiect y Gronfa Seilwaith Safleoedd Cyflogaeth Strategol*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 63/2017

Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-strategic-employment-sites-infrastructure-fund/?skip=1&lang=cy>

Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn rhai o eiddo'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd yn rhai Llywodraeth Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda:

Tom Stevenson
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: tom.stevenson2@gov.wales